

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd trwy gyfleuster fideo gynadledda ddydd Mercher, 23 Mawrth 2023 am 11.00 am.

YN BRESENNOL

Yn bresennol:

Y Cyngorydd Jason McLellan	Cyngor Sir Ddinbych
Y Cyngorydd Charlie McCoubrey	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Graham Boase	Cyngor Sir Ddinbych
Rhun ap Gareth	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Justin Hanson	Cyfoeth Naturiol Cymru (yn dirprwyo ar ran Martin Cox)
Helen MacArthur	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Louise Woodfine	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Iechyd y Cyhoedd)
Emma Lea	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn dirprwyo ar ran Libby Ryan-Davies)
Wendy Jones	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
Tom Barham	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Carol Marubbi	Cynghorau Tref a Chymuned – cynrychiolydd Conwy

Swyddogion:

Amanda Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Hannah Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Fran Lewis	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Mike Corcoran	Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
Iolo McGregor	Cyngor Sir Ddinbych
Karen Evans (Gwesteiwr)	Cyngor Sir Ddinbych
Rhodri Tomos-Jones	Cyngor Sir Ddinbych
Helen Miliband	Cyfoeth Naturiol Cymru
Iona Hughes	Cyfoeth Naturiol Cymru

HEFYD YN BRESENNOL

Sylwedydd – y Cyngorydd Gareth Sandilands (Cyngor Sir Ddinbych)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan –

- Elin Gwynedd, Llywodraeth Cymru
- Helena Kirk, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru
- Owain Llywelyn, Heddlu Gogledd Cymru
- Libby Ryan Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Mark Hughes, Cyfoeth Naturiol Cymru

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022.

O ran cywirdeb, amlygodd Helen MacArthur bod ei henw wedi'i gamsillafu.

PENDERFYNWYD *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022 a'u cymeradwyo fel rhai cywir.*

3 OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU'R CYFARFOD

Cyflwynodd y Cadeirydd, Jason McLellan, y Camau Gweithredu i'w holrhain yn y cyfarfod.

Roedd y meysydd cymunedol a gwaith Rachel yn dal i fynd yn eu blaen. Rhoes Amanda Jones wybod bod y gwaith yn dal i fynd rhagddo a bod Dr Rachel yn meithrin cyswllt â swyddogion i symud pethau ymlaen. Byddai'r camau gweithredu eraill yn cael eu trafod dan eitemau ar raglen y cyfarfod.

Amlygodd y Bwrdd yr angen i ymgysylltu, gan nodi y byddai cyfarfodydd hybrid yn hwyluso hynny'n well gan y gallai pobl gydweithio wyneb yn wyneb.

4 CYMERADWYO CYNLLUN LLES CONWY A SIR DDINBYCH

Diolchodd y cadeirydd i bawb a fu'n rhan o waith y swyddogion ar y cynllun lles, ac ategodd Iolo McGregor hynny.

Cyflwynodd Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Cyngor Sir Ddinbych, Gynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2023 - 2028.

Ar sail yr Asesiad Lles, roedd y BGC wedi cynnal nifer o drafodaethau blaenoriaethu (yn Ionawr, Mawrth a Mai 2022) gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru, i ystyried pa feysydd o bryder fyddai'n elwa fwyaf ar ymyrraeth y BGC. Yn ystod y trafodaethau hynny ceisiwyd dod o hyd i achosion y problemau a nodwyd yn yr asesiad, gan ystyried eu perthynas â'i gilydd a lefel y dylanwad neu reolaeth oedd gan y BGC. Yn olaf, cytunwyd y dylid cyflwyno un prif thema er mwyn lliniaru ar amddifadedd ac anghydraddoldeb.

Cyfarfu'r BGC eto ym mis Gorffennaf a chytuno ar Gynllun amlinellol i wneud Conwy a Sir Ddinbych yn lleoedd mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd. Cyhoeddwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 17 Awst a barodd nes 9 Tachwedd. Ar yr un pryd fe gychwynnom y cyfnod o 14 wythnos i'r Comisiynydd Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol roi sylwadau ar ein cynllun drafft, ac fe gynhaliwyd y sgysiau hynny rhwng swyddogion.

Aeth y gwaith yn ei flaen drwy'r hydref i ddatblygu'r Cynllun yn seiliedig ar y sylwadau a'r wybodaeth a gafwyd. Cynhaliwyd dau gyfarfod â chynrychiolydd Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i drafod eu hymateb i'r Cynllun. Cyfarfu swyddogion cefnogi BGC ddwywaith hefyd i ddatblygu'r Cynllun a thrafod yr ymatebion o'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymateb manwl gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Yna cyflwynwyd y Cynllun drafft i'r BGC ar 30 Tachwedd.

Ers mis Tachwedd roedd wedi mynd gerbron yr holl sefydliadau partner i'w dderbyn; fel yr oedd hi ddydd Llun, roedd pob un o'r partneriaid wedi cytuno i fod yn rhan o'r cynllun lles. Heblaw am hynny, dymunai'r swyddogion weld a oedd y BGC wedi derbyn unrhyw ymateb, neu a oedd angen ystyried rhagor o ddiwygiadau.

Roedd yr holl aelodau o blaid y cynllun; cadarnhaodd y swyddogion bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylwadau a'i fod hefyd yn llwyr gefnogol.

Pwysleisiodd aelodau'r bwrdd bod eu sefydliadau hwythau o blaid y Cynllun Lles.

PENDERFYNWYD bod y *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymeradwyo'r Cynllun Lles terfynol i'w gyhoeddi.*

5 ADOLYGU'R CYLCH GORCHWYL

Cyflwynodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jason McLellan, yr adolygiad o'r cylch gorchwyl. Soniodd y cadeirydd y codwyd y mater yn y cyfarfod cyntaf iddo'i gadeirio; awgrymwyd, fodd bynnag, y dylid dod â'r mater yn ôl i'w drafod yn fanylach.

Holodd y cadeirydd a oedd angen newid y cylch gorchwyl fel y gellid ymgysylltu'n helaethach â chyrrff eraill yn y rhanbarth a gwahodd mwy o sefydliadau i ymuno â'r bwrdd; cafwyd un awgrym i wahodd Cyngor ar Bopeth i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd fel aelod o'r bwrdd.

Awgrymwyd y byddai angen i unrhyw bartneriaid eraill oedd yn ymuno â'r bwrdd atgyfnerthu'r nodau yn hytrach nag ychwanegu gormod o rai newydd, rhag i'r cyfarfodydd droi'n siop siarad. Awgrymwyd y gellid cynnwys yr arweinyddiaeth, gan ystyried mai un o nodau'r BGC oedd arwain. Awgrymodd y bwrdd ddiwygio paragraff 2.1 er mwyn amlygu sut fyddai'r bwrdd yn arwain ar fod yn uchelgeisiol, dyfeisgar ac awyddus i gydweithio er mwyn dod o hyd i ddulliau cynaliadwy o gynnal gwasanaethau.

Soniwyd am drafodaethau â sefydliadau y tu allan i'r bwrdd, ac wedi gweld pwy allai ymuno â'r bwrdd â'r hyn y gallent ei gyfrannu roedd y bwrdd yn fodlon ymchwilio ymhellach i'r syniad.

Dywedwyd hefyd fod angen newid y teitl Iechyd Cyhoeddus Cymru i Iechyd Cyhoeddus. Amlygwyd hefyd bod angen diwygio adran 13 er mwyn cynnwys y cyfrifoldebau statudol a nodwyd yn adran 3 (yn hytrach na paragraff 7).

PENDERFYNWYD bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r adolygiad o'r cylch gorchwyl ac y byddai'n ymchwilio ymhellach i'r awgrymiadau uchod.

6 GRANT CEFNOGI RHANBARTHOL Y BGC AR GYFER 2023-2026

Amanda Jones, Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd am y grant a ddarparodd Llywodraeth Cymru i ranbarth Gogledd Cymru yn 2023-24, 2024-25 a 2025-26, a sut y dyrannwyd yr arian yn ôl y meini prawf yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u pennu, gan gynnwys manylion am y math o weithgareddau a gynigid.

Bwriad y cyllid oedd cynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu eu cymhwyster a gallu strategol, yn ogystal â hybu cyfranogiad ac ymgysylltiad cymunedol i gefnogi'r Byrddau wrth gyflwyno camau nesaf eu cynlluniau lles lleol.

Roedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru (gyda chymorth swyddogion) wedi ystyried sut y gellid defnyddio'r arian yn y rhanbarth i gefnogi darpariaeth eu Cynlluniau Lles. Roedd y cynnig wedi'i ddatblygu'n bwrpasol ar lefel uchel ac yn ddigon eang i gynnwys yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Rhanbarth Gogledd Cymru a chaniatáu hyblygrwydd.

Darperid cefnogaeth mewn tri o feysydd, sef –

- (i) Adeiladu cymhwyster a gallu ledled y rhanbarth
- (ii) Cefnogi darpariaeth Cynlluniau Lles - ymysg yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- (iii) Cefnogi darpariaeth Cynlluniau Lles - ledled cymunedau

Gwahoddwyd y bwrdd i gynnig darnau ychwanegol o waith a fyddai'n addas i'r meysydd hynny; cyflwynwyd cynnig ar lafar i ddatblygu gweithdy gyda chynrychiolwyr grwpiau lleiafrifol er mwyn ymchwilio i'r rhwystrau posib oedd yn atal pobl rhag cael gwaith yn y sector cyhoeddus. Byddai'r gweithdy'n darparu gwybodaeth i'r holl sefydliadau cyhoeddus yn rhanbarth Gogledd Cymru. Roedd y Bwrdd o blaid y cynnig hwn.

Fel y blynyddoedd blaenorol, dyrennid yr arian ar sail ôl troed y bwrdd iechyd, ac roedd £103,892 ar gael i Ranbarth Gogledd Cymru ym mlwyddyn ariannol 2023-24. Roedd Cyngor Sir y Fflint, fel yr awdurdod arweiniol, wedi gweithio gyda Grŵp Rheoli Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru (gan gynnwys swyddogion oedd yn cefnogi BGC ar draws partneriaid) i gyflwyno'r cynnig ar gyfer 2023-24.

Ni chaniateid defnyddio'r arian ar gyfer:

- Datblygu, darparu neu gynnal prosiectau penodol a ddewiswyd gan y BGC.
- Gweithgareddau monitro a gwerthuso i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau ac olrhain cynnydd dros amser (oni bai am gynnal a chadw'r porth data).
- Cefnogaeth gyffredinol i'r bartneriaeth.

- Ariannu swyddi cyflogedig parhaol (hynny yw, eu hariannu drwy'r grant cefnogi hwn yn unig).

Diolchodd y pwyllgor i'r swyddogion am yr adroddiad; amlygwyd fod Gogledd Cymru'n derbyn llai o arian na'r rhanbarthau eraill, ond rhoddwyd clod serch hynny i'r trefniant ariannu gan y byddai'r holl bartneriaid ar eu hennill.

PENDERFYNWYD bod y *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi cynnwys Grant Cefnogi Rhanbarthol y BGC ar gyfer 2023-2026.*

7 RHAGLEN DATBLYGU CLWSTWR CARLAM

Hysbysodd Hannah Edwards - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - y cadeirydd na fedrai'r swyddog ddod i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad ar y mater, ac felly na ellid trafod yr eitem hon.

8 CYNLLUN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd copi o raglen gwaith i'r dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Awgrymodd y bwrdd y byddai bwrw golwg ar gyrff rhanbarthol eraill a'u dulliau o gyflawni eu gwaith yn galluogi'r BGC i ystyried risgiau a materion cyffredin a rhannu arferion da.
- Awgrymwyd dod ag adroddiad ar deithio llesol gerbron y bwrdd ym mis Medi.
- Soniwyd am yr eitem ynghylch fferm wynt y môr a holwyd a oedd yno unrhyw wybodaeth newydd y gellid ei rhannu â'r bwrdd; byddai swyddogion yn ymchwilio i hynny.

Fel y soniwyd yn gynharach yn y cyfarfod, cytunodd yr aelodau y byddent yn ystyried cynnal y cyfarfod nesaf drwy ddull hybrid wedi'i drefnu gan Gyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD *cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55pm.